**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/04075/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru

7 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich e-bost 15 Mehefin ynghylch y ddeiseb P-05-977 i ailagor gwasanaethau deintyddol cyffredinol llawn yng Nghymru yn unol â phractisau deintyddol yn Lloegr.

Yn dilyn y cyhoeddiad yn Lloegr y byddai practisau deintyddol ar agor am y tro cyntaf o 8 Mehefin bu diddordeb sylweddol mewn deintyddiaeth ac mae'r sylw a gafwyd yn y cyfryngau yn sgil hynny heb gyfleu'n llawn y sefyllfa gywir o ran gwasanaethau deintyddol yng Nghymru.

Yn wahanol i Loegr, drwy gydol y pandemig hwn, mae deintyddion yng Nghymru wedi bod ‘ar agor’ yn wedi llwyddo i weld cleifion wyneb yn wyneb yn eu practisau lle bo angen ar gyfer gofal brys er nad yw deintyddiaeth arferol nad yw’n ddeintyddiaeth frys yn cael ei darparu am y tro. Fel pob gwlad arall yn y DU, sefydlwyd hefyd 5 o ganolfannau deintyddol brys i drin achosion argyfwng a brys sy’n gofyn am driniaeth fwy cymhleth.

Nid wyf yn derbyn y syniad bod Cymru rywsut yn llusgo y tu ôl i Loegr o ran ailagor gwasanaethau. Yn ystod y pandemig, mae deintyddion a'u timau wedi gweld dros 16,000 o bobl mewn practisau ac wedi darparu dros 175,000 o ymgynghoriadau o bell, drwy wasanaethau ffôn neu fideo. Yn ogystal, mae'r canolfannau deintyddol brys wedi darparu triniaeth i ryw 7,000 o bobl.

Mae'n flaenoriaeth gennym fod ein cynllun ar gyfer adfer gwasanaethau yn bwyllog ac yn raddol yn unol â dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran llacio’r cyfyngiadau symud. Nid ydym yn dilyn yr arfer yn Lloegr. Yn hytrach, yng Nghymru rydym yn mynd ati i i adfer gwasanaethau deintyddol yn ddiogel, yn raddol ac mewn ffordd sy’n seiliedig ar risg. Mae angen cydbwyso anghenion iechyd geneuol cleifion yn erbyn y gofyniad i barhau i ystyried cyd-destun ehangach Covid-19 er mwyn lleihau'r risg o’i drosglwyddo yn y gymuned er mwyn diogelu cleifion, timau deintyddol a'r gymuned ehangach.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar 22 Mai cyhoeddodd Prif Swyddog Deintyddol Cymru Gynllun Llacio'r Cyfyngiadau Pandemig ar gyfer Deintyddiaeth yng Nghymru a nododd fod gwasanaethau deintyddol yn cael eu hailsefydlu'n raddol i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Ar 10 Mehefin, cyhoeddwyd Proses Weithredu Safonol Cymru Gyfan (SOP) a ddosbarthwyd i bob practis deintyddol fel rhan o'r cynllun adfer ar gyfer deintyddiaeth yng Nghymru. Nododd hon y broses o ailddechrau'r gwasanaethau deintyddol a bydd cynlluniau ar gyfer cam cyntaf llacio'r cyfyngiadau'n dod i rym o 1 Gorffennaf pan fyddai mwy o bractisau deintyddol yng Nghymru yn gallu dechrau cyflwyno triniaethau ychwanegol ac ystod ehangach o ofal.

Ar hyd yr amser, mae'r holl gynlluniau ar gyfer adfer gwasanaethau deintyddol wedi'u hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod deintyddiaeth yn gysylltiedig â'r cynlluniau adfer ar gyfer meysydd eraill o ofal sylfaenol a gwasanaethau ehangach.

Ochr yn ochr â chyhoeddiad y Prif Weinidog ar 19 Mehefin ynghylch lleddfu pellach ar y cyfyngiadau symud, gwnaethom godi'r Rhybudd Coch mewn deintyddiaeth yng Nghymru o ddydd Llun 22 Mehefin. Erbyn hyn, gall gwasanaethau deintyddol symud i'r cyfnod Oren o ran llacio'r cyfyngiadau. Mae'r rhan fwyaf o bractisau a byrddau iechyd yn debygol o fod angen yr amser sydd ar gael cyn 1 Gorffennaf i baratoi, ac rydym yn cefnogi'r gofyniad hwnnw yn llwyr. Er hynny, gall practisau deintyddol sy'n barod i wneud hynny agor yn llawnach a llacio'r meini prawf ar gyfer asesu gofal brys, i weld a thrin mwy o'u cleifion cyn y dyddiad a gynlluniwyd yn gynharach sef 1 Gorffennaf.

Bydd amseriad y gwahanol gyfnodau'n parhau i gael ei adolygu'n barhaus. Bydd gwasanaethau'n dychwelyd yn raddol ac rydym wedi cydnabod y bydd y capasiti ar gyfer gofal deintyddol mewn rhai practisau yn cael ei gyfyngu gan fesurau ffisegol ac argaeledd PPE priodol (a phrofion ffit masgiau). Mae angen i bractisau deintyddol barhau i ddilyn mesurau llym o ran rheoli haint, gan gynnwys trwy gadw pellter cymdeithasol, er mwyn amddiffyn staff practis, cleifion a'r gymuned ehangach. Mae'r dull gweithredu rydym yn ei gymryd yn cynnig darparu gwasanaethau deintyddol i'r rhai sydd â'r angen mwyaf, gyda'r triniaethau a ddarperir yn cynyddu wrth i'r risg o Covid-19 leihau.

Gobeithio bod hyn o gymorth.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services